## Am gynllun Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn

Mae Cynllun Bywydau yn rhan o wasanaeth Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd ac yn cynnig gwasanaeth Cysylltu Bywydau ar draws Gwynedd a Môn.

Wedi ei sefydlu yn 2005, mae'r cynllun eisoes yn cynnwys nifer o alluogwyr sy'n cefnogi lleoliadau ar sail tymor hir, tymor byr, ysbaid a dydd.

Rydym wedi ein lleoli yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd ym Mhwllheli a Dolgellau a Chyngor Môn yn Llangefni.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

Teleffon: 01758 704145

Gwefan: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Gofalwyr/Cynllun-Cysylltu-Bywydau.aspx

Cyfeiriad: Cynllun Cysylltu Bywydau

Cyngor Gwynedd,

Ffordd y Cob,

Pwllheli,

Gwynedd,

LL53 5AA

Facebook: @CysylltuBywydauGaM

Twitter: @bywydau

# Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn



## Mae bywyd a rennir yn fywyd gwell

## Beth yw Cysylltu Bywydau?

Mae ein gwasanaeth yn canolbwyntio ar deulu yn rhannu eu cartref, bywyd teuluol, diddordebau, profiadau a sgiliau gyda unigolion bregus sydd eisiau ychydig o gefnogaeth i fyw mor annibynnol a phosib.

Mae Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn yn chwilio am alluogwyr i ddarparu amgylchedd teuluol all helpu rhywun sydd eisiau cefnogaeth i fyw i'w llawn potensial, i gael mynediad i'r gymuned, i hybu annibyniaeth ac i ddatblygu ei sgiliau.

Gall y gefnogaeth gael ei ddarparu trwy'r lleoliadau canlynol:

- Tymor hir
- Tymor byr
- Ysbaid
- Cefnogaeth dydd



Mae cefnogaeth ar gael i bobl 18+ sydd gyda:

- Anabledd Dysgu
- Problemau Iechyd meddwl
- Anabledd corfforol
- Nam synhwyraidd
- Dementia

## Pwy all fod yn alluogwr?

Gall pob math o bobl fod yn alluogwyr: cyplau, pobl sengl, teuluoedd, perchnogion tŷ, tenantiaid. Nid oes terfyn oed ar bwy all fod yn alluogwyr.

Rydym yn chwilio am alluogwyr ymroddedig sydd eisiau gwneud gwahaniaeth ym mywydau unigolion bregus, mewn amgylchedd teuluol.

## Beth am y broses asesu?

Er mwyn ymuno fel galluogwr, mae angen mynd trwy broses asesu trylwyr sy'n cynnwys asesiad manwl, gwiriad GDG a gwirio geirda personol a meddygol, hanes cyflogaeth a cytundeb benthyciwr morgais/landlord.

## Pa gefnogaeth sydd ar gael i'r galluogwr gan y Cynllun?

- Hyfforddiant priodol
- Cyfatebu gofalus o'r unigolyn gyda chi a'ch teulu
- Cefnogaeth barhaus gan swyddogion Cysylltu Bywydau a fydd yn cwrdd â chi'n rheolaidd ac yn eich cefnogi chi a'r unigolyn sy'n cael ei lleoli gyda chi.
- Mynediad i gefnogaeth gan 'Cysylltu Bywydau a Mwy'; rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer Cysylltu Bywydau,



## Beth am tâl?

Gall galluogwyr gefnogi hyd at 3 unigolyn ar yr un amser yn ei cartref (hyn yn ddibynnol ar cyfatebu ac addasrwydd y cartref), a derbynnir tâl am phob lleoliad. Mae faint y dderbynnir yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn ac y math o leoliad.

Nid yw galluogwyr Cysylltu Bywydau yn gyflogedig gan Gynghorau Gwynedd neu Môn, maent yn hunangyflogedig ac yn gyfrifol dros wneud taliadau Yswiriant Gwladol a threth eu hunain.

## Hoffwch gael mwy o wybodaeth?

Of hoffwch fwy o wybodaeth am ddod yn alluogwr gyda'r Cynllun, neu yn adnabod rhywun a fuasai yn elwa o dderbyn cefnogaeth trwy'r Cynllun, yna cysylltwch â ni trwy'r manylion ar y cefn. Gallwn drafod ymhellach dros y ffôn neu drefnu i un o'n swyddogion i ddod allan i'ch gweld